

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

2017 – 2020

Adolygwyd Tachwedd 2017

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg ar gais.



Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent 2017-2020

1. Nodwch weledigaeth, nod ac amcanion eich awdurdod lleol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd nesaf.

Gweledigaeth:

Gweledigaeth y Cyngor a'r Fforwm Addysg Gymraeg yw ein bod eisiau i Flaenau Gwent fod yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo, rydym eisiau cymunedau ffyniannus a thrwy hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg anelwn roi'r sgiliau i breswylwyr ac ymwelwyr i ddefnyddio'r Gymraeg fwyfwy yn y blynyddoedd i ddod. Bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn rhoi pwyslais ar blant a phobl ifanc ond bydd hefyd yn rhaeadru i osodiadau teuluol a chymunedol.

Mae Drafft Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent yn rhoi ystyriaeth i strategaeth a pholisïau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys:

- Deddf Tlodi Plant (2010)
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013), Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
- 'Ailysgrifennu'r Dyfodol' (2015)
- *Dyfodol Llwyddiannus - Adolygiad Donaldson* (2015) - Adroddiad ar y trefniadau Cwricwlwm ac Asesu yng Nghymru
- Fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) (2010) a elwir bellach yn diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Amcanion:

- **Codi proffil a lefelau cyfranogiad ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2020, i gyfrannu at y weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**
- **Cynyddu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i ysgogi galw gan rieni i alluogi twf ar draws y Fwrdeistref Sirol.**
- **Cynyddu cyfraddau trosglwyddo o ddarpariaeth feithrin Gymraeg i Ysgol Gymraeg Bro Helyg gan 50% erbyn 2020.**
- **Gweithio'n rhanbarthol gydag awdurdodau lleol yn Ne Ddwyrain Cymru i sicrhau lleoedd ar gyfer dysgwyr Blaenau Gwent mewn darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg rhwng 2017/2020 a thu hwnt.**
- **Gwella deilliannau dysgwyr cyfrwng Cymraeg erbyn 2020 fel y gall dysgwyr godi eu huchelgeisiau a gwella eu cyfleoedd bywyd.**

Datganiad:

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi gweledigaeth ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent yn ymroi i gyfrannu i gyflawni'r targed uchelgeisiol hwn o fewn y Fwrdeistref Sirol drwy

gyflawni'r amcanion a nodir uchod. Caiff Cynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg 2017/20 Blaenau Gwent ei gymeradwyo gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016.

Bu gan Flaenau Gwent ymroddiad ers amser maith i annog a datblygu'r Gymraeg o fewn y gweithle a hefyd yn ein cymunedau. Fodd bynnag mae'n bwysig cydnabod y gall plant o gartrefi di-Gymraeg ddatblygu sgiliau gwirioneddol ddwyieithog drwy fynychu ysgolion cyfrwng Gymraeg. Cyhoeddwyd Cynllun Iaith Gymraeg cyntaf y Cyngor yn ôl yn 1998 gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth Gymraeg oedd yn diwallu anghenion siaradwyr Gymraeg Blaenau Gwent, p'un ai'n rhugl neu'n un o'r nifer sylweddol o oedolion a phobl ifanc sy'n dysgu'r Gymraeg yn ein canolfannau addysg cymunedol ac ysgolion. Mae Cynlluniau Iaith Gymraeg dilynol wedi adeiladu ar yr egwyddorion hyn, ond mae'r sylfeini yn parhau mor bwysig heddiw ag oeddent bryd hynny.

Yn sylfaenol, nod Safonau'r Gymraeg newydd yw sicrhau y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo ym mhob agwedd o fywyd yng Nghymru. Yn y sector cyhoeddus, mae'r holl wasanaethau ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg e.e. mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn cynnig y dogfennau dilynol yn ddwyieithog:

- Llyfryn Derbyn i Rien/Gofalwyr
- Ffurflenni cais am dderbyn i ysgolion yn ogystal â throsglwyddo o fewn y flwyddyn
- Dogfennau ymgynghori cludiant ysgolion a hyrwyddo digwyddiadau.

Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn, mae'r Cyngor wedi adeiladu ar y gwaith da a gyflawnwyd eisoes drwy ein Cynlluniau Iaith Gymraeg blaenorol drwy gynnwys elfennau Gymraeg ym mholisiau a phrosesau allweddol y Cyngor megis y Polisi Trefniadaeth Ysgolion (2015), Polisi Derbyn ac yn y blaen. Ystyrir datblygu ein gwasanaethau Gymraeg ar draws Addysg a phob maes arall o'r Cyngor ar lefel fwy strategol nag erioed o'r blaen. Credir bod hynny'n sylfaenol o ran ymgysylltu, gwneud penderfyniadau a chynllunio busnes y Cyngor a gyda hynny, mae hyn yn cefnogi gwaith Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i ddatblygu'r ddarpariaeth addysg yn y Gymraeg orau y gall Blaenau Gwent ei chynnig.

Y sefyllfa bresennol ym Mlaenau Gwent yw mai un ysgol gynradd sy'n darparu addysg cyfrwng Gymraeg sef Ysgol Gymraeg Bro Helyg, gyda darpariaeth uwchradd yn cael ei darparu yn Ysgol Gyfun Gwynllyw mewn partneriaeth gyda chynghorau Consortiwm De Ddwyrain Cymru. Mae partneriaeth y Consortiwm wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau twf ar gyfer darpariaeth uwchradd cyfrwng Gymraeg ac mae hyn yn bwysig gan ei fod yn sicrhau lleoedd ar gyfer dysgwyr Blaenau Gwent ar ddarpariaeth uwchradd.

Mae Fforwm Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru ar draws ardal Gwent fwyaf yn arwain ar ddatblygu safonau addysg Gymraeg, gan gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg. Mae Blaenau Gwent yn bartner ymroddedig sy'n cyfrannu at gydweithio yn y rhanbarth i ddarparu'r capasiti a chynaliadwyedd i ysgolion a darparwyr addysg ar draws ystodau oedran a sectorau ieithyddol i gynyddu safonau yn y Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd, cymunedau a gweithleoedd. Bydd Cyngor Blaenau Gwent yn

adolygu hyrwyddiad a manteision dwyieithrwydd drwy ymgysylltu drwy'r Fforwm gyda phartneriaid allweddol megis Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a darparwyr blynyddoedd cynnar yn ogystal â defnyddio'r data genedigaethau byw ar gyfer yr arolwg blynyddol o'r galw am addysg Gymraeg a chysylltu gyda'r cylch derbyn ar gyfer ysgolion yn cynnwys hyrwyddo gosodiadau cyfrwng Saesneg a hefyd osodiadau cyfrwng Cymraeg. Bydd Blaenau Gwent a'i bartneriaid yn ysgogi galw ac yn sicrhau darpariaeth leol, hygyrch, gynaliadwy a gyda ffocws ar y gymuned i ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd y Fforwm yn parhau i adolygu'r galw a phenderfynu os oes cyfle i ddatblygu egin ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.

Cydnabyddir fod datblygu Fforwm Addysg Gymraeg gryf yn hollbwysig i gyflenwi'r cynllun Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn llwyddiannus. Mae'r Fforwm yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, yn cynnwys y cylch gorchwyl i ddarparu amcanion lefel uchel ar gyfer y Fforwm. Caiff dull gweithredu'r Fforwm ei gytuno gyda phartneriaid yn nhymor yr Hydref 2016 i alluogi ei weithredu yn ystod cyfnod cyflenwi'r Cynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg (2017/2020). Bydd y Fforwm yn datblygu ymhellach sianel ffurfiol o gyfathrebu rhwng Cyngor Blaenau Gwent, yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a gynhelir a sefydliadau partner eraill a all gydweithio tuag at flaenoriaethau lleol a strategol.

Bydd blaenoriaethau'r Fforwm yn cynnwys:

- gweithredu fel grŵp ymgynghorol, yn cyfrannu at ddatblygu, monitro a gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- datblygu, gweithredu a monitro cynllun gweithredu lleol;
- monitro ac adolygu darpariaeth i adlewyrchu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg;
- monitro darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a phenderfynu fel grŵp i weithio tuag at ddatblygiadau yn y dyfodol; a
- darparu adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru yn disgrifio cynnydd yn nhermau targedu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg o gymharu â'r amserlen a gymeradwywyd.

Bydd Fforwm Blaenau Gwent y dynodi aelod arweiniol ar gyfer pob un o'r deilliannau yn y drafft Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd yr aelod arweiniol yn atebol am y cynnydd a wnaed ar y deilliannau ac yn adrodd yn ôl i'r Fforwm. Bydd y dull gweithredu lledaenu arweinyddiaeth yn hwyluso gwell gweithio partneriaeth ac yn hybu gwelliant dros gyfnod oes y Cynllun Strategol (2017/2020).

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017/2020 Blaenau Gwent wedi alinio'n uniongyrchol â fframweithiau strategol Llywodraeth Cymru a'r Cyngor ar y Gymraeg. Mae Blaenau Gwent yn cydnabod na fu cynnydd sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru ar un ai ddarpariaeth feithrin neu ôl-16. Felly mae angen i bob partner gyfrannu at godi lefelau darpariaeth Gymraeg ym mhob agwedd o addysg. Gellir crynhoi'r blaenoriaethau strategol ar gyfer dogfen y Cynllun Strategol dros y tair blynedd nesaf i'r gweithgaredd dilynol:

- Codi proffil addysg cyfrwng Cymraeg drwy adolygiad parhaus a sylfaenol o Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent erbyn 2017. Bydd hyn yn cynnwys

diwygio'r cylch gorchwyl, y gynrychiolaeth ar y fforwm a llinellau clir o gyfrifoldebau ac atebolrwydd ar 7 canlyniad y Cynllun Strategol.

- Penderfyniad i ysgogi galw gan rieni yn neilltuol drwy gynyddu'r cynnig blynyddoedd cynnar ac ymrwymadau i gynnal arolygon blynyddol ar y galw am addysg cyfrwng Cymraeg i fod yn sylfaen i ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer cyfnod 2017/20.
- Gwella cyfraddau trosglwyddo disgyblion o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i addysg statudol cyfrwng Cymraeg.
- Mae sicrhau lleoedd ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg Blaenau Gwent drwy gydweithio rhanbarthol yn parhau'n flaenoriaeth; bydd y Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid yng Nghonsortium De Ddwyrain Cymru i gwblhau adolygiad o'r dalgylch 2017/18 ar gyfer Ysgol Gyfun Gwynllyw i sicrhau fod lleoedd ar gael ar gyfer dysgwyr Blaenau Gwent i'r dyfodol.
- Ymrwymiad i wella deilliannau dysgwyr cyfrwng Cymraeg ar y Cyfnod Sylfaen a phob Cyfnod Allweddol, ond yn neilltuol felly ar Gyfnod Allweddol 4. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gwella sgiliau rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg a bydd felly yn gweithio gyda Choleg Gwent a hefyd dîm Addysg Oedolion a Chymunedol Ymddiriedolaeth Aneurin Leisure ar ddarparu cyfleoedd dysgu yn y Gymraeg i oedolion.

I grynhoi, mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn cydnabod y bu datblygu addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y Fwrdeistref Sirol drwy gyfnod heriol gyda deilliannau dysgwyr, yn neilltuol yn y sector cynradd, wedi aros yn eu hunfan mewn blynyddoedd diweddar. Wrth symud ymlaen, fodd bynnag, mae'r data ar ddeilliannau disgyblion yn awr yn gwella a chaiff hyn effaith sylweddol ar gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Strategol rhwng 2017/2020. Mae Blaenau Gwent hefyd yn ymroddedig i alinio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gyda gwaith yr holl awdurdodau lleol ar draws ardal Consortium De Ddwyrain Cymru a bydd yn parhau i gyfrannu at fforwm Addysg Gymraeg y Consortium.

2. Mae'n ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol dan Adran 10 Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn dilyn mae ddatganiad am hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ym Mlaenau Gwent yng nghyswllt cludiant ysgol, gan roi sylw i heriau a meysydd arfer da drwy gydweithredu.

Yn yr un modd â phob Cyngor o fewn y rhanbarth, mae Blaenau Gwent yn cydymffurfio gyda gofynion Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 drwy ddarparu cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor. Mae Polisi Cludiant Blaenau Gwent yn cynnwys cludiant am ddim i ddysgwyr cynradd, uwchradd ac ôl-16 sydd gryn dipyn yn uwch na'r terfynau strategol, mae hyn yn llawer mwy hael na therfynau statudol Llywodraeth Cymru drwy ddarparu cludiant ar gyfer disgyblion yn byw 1½ milltir ar gyfer plant dan 8 a 2 filltir ar gyfer plant dros 8. Cynhelir adolygiad o bolisi cludiant presennol y Cyngor yn 2016/17 a bydd hyn yn cynnwys darpariaeth trefniadau cludiant cyfrwng Cymraeg.

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gyfarwyddiaeth Addysg adolygu polisi presennol ar gludiant cartref i'r ysgol ac ôl 16; bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys ymgynghoriad ffurfiol llawn a bydd hefyd yn rhoi ystyriaeth iawn i unrhyw oblygiadau ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg, yn arbennig natur ranbarthol darpariaeth ar draws ardal Consortiwm De Ddwyrain Cymru.

Yr her i bob Cyngor wrth benderfynu ar eu polisiau cludiant yw fod yn rhaid i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fod yn gyson â darpariaeth ar gyfer dysgwyr cyfrwng Saesneg. Caiff y cysondeb hwn o ran dull gweithredu ei ddefnyddio i gydymffurfio gyda Mesur Teithio Dysgwyr sy'n gwahardd gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o ddysgwyr yn y trefniadau teithio a wnaiff gan gynghorau.

Mae tîm cludiant y Cyngor yn monitro'n agos faint o leoedd 'gwag' sydd ar gapasiti cludiant cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn fwy na chyflawni'r galw yn y sector cynradd ac uwchradd a bydd mewn sefyllfa i ddarparu os oes galw ychwanegol yn y dyfodol. Mae Blaenau Gwent hefyd yn darparu cludiant am ddim i bob disgybl ôl 16 i Ysgol Gyfun Gwynllyw a hefyd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn lle Grant Teithio ôl-16.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynhyrchu adroddiad ar ddysgu ôl 16 a'r effeithiau ar lefelau cyfranogiad dysgu a safonau a bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017/20 yn ystyried adroddiad y Comisiynydd pan fyddir yn adolygu polisi cludiant ôl 16 Blaenau Gwent.

Mae'r Cyngor wedi adolygu'r Polisi Cludiant Cartref i'r Ysgol ac Ôl-16 gyda golwg ar gynnig cludiant Feithrin ar ddisgresiwn. Mae hwn yn gam cadarnhaol iawn yn y broses o gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a bydd hefyd yn dylanwadu ar ddatblygiad a'r galw am ddatblygiad cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg.

Dywedodd rhieni sydd â phlant yn mynychu'r ysgol, yng nghyswllt darpariaeth feithrin ran-amser, eu bod yn ei chael yn anodd teithio i'r ysgol ddwywaith mewn bore. Fel canlyniad, dechreuodd Ysgol Gymraeg Bro Helyg gynnig darpariaeth lawn-

amser ym mis Hydref 2016. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar y niferoedd gan y dyrannwyd lle meithrin ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 i 30 disgybl o gymharu gyda 22 disgybl y llynedd.

1. Sut fyddwch chi'n cyflawni Deilliannau 1-7. Disgwylir i chi gyflwyno data (rhoddir rhestr o hynny yn atodiad 1) i gefnogi eich targedau, rhestrwch fel atodiadau os gwelwch yn dda. Gofynnir i chi sicrhau eich bod yn croesgyfeirio eich data at y deilliannau.

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Rhowch eich sefyllfa bresennol yng nghyswllt nifer y disgyblion saith oed a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a'ch targedau am y tair blynedd nesaf.

Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
• 24 disgybl blwyddyn 2 blwyddyn academaidd 15/16	38	24	24
• 30 disgybl blwyddyn 2 blwyddyn academaidd 16/17 (Medi 16)			

Rhestrwch eich pedwar prif amcan ar ffurf pwyntiau bwled wrth gyflawni'r deilliant hwn

- **Bydd y Fforwm Addysg Gymraeg yn cynnal arolwg blynyddol o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ymhlith rhieni plant dan oedran ysgol.**
- **Bydd y Fforwm Addysg Gymraeg yn mynd ati'n systematig i wella marchnata, hyrwyddo a gwybodaeth i rieni/gofalwyr ar fanteision addysg cyfrwng Cymraeg fel y cyflawnir y galw am addysg cyfrwng Cymraeg.**
- **Cynyddu nifer y plant saith oed a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2020.**
- **Ymchwilio'r opsiwn am ddsbarth meithrin rhan-amser i ddod yn lleoedd llawn-amser i gynyddu'r galw.**

Datganiad Cefnogi:

Mae Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Blaenau Gwent wedi rhoi dysgu cyfrwng Cymraeg fel y brif flaenoriaeth. Ymrwymodd y proffil buddsoddi cyfalaf £2m i ddechrau i ddatblygu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y rhanbarth. Cafodd Blaenau Gwent ei hysbysu gan Gyngor Sir Casnewydd yn 2014 nad oedd angen y cyfraniad ariannol mwyach ac fel canlyniad cyflwynwyd ymarferiad ailbroffilio o fewn yr amlen gost wreiddiol ar gyfer prosiectau eraill. Agorodd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, prosiect Casnewydd, ym mis Medi 2016 gyda'r adeilad newydd yn barod ar safle Dyffryn yn 2018/19. Ymhellach, o fewn y cynnig Band A, gwnaed darpariaeth i ehangu'r gosodiad cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent yn amodol ar alw rhieni, a chedwir golwg agos at hynny rhwng 2017/20.

Fel yr amlinellwyd yn Rhaglen Amlinellol Strategol Band B Ysgolion y 21ain Ganrif, mae Blaenau Gwent yn bwriadu buddsoddi £1 miliwn i sefydlu darpariaeth egin cyfrwng Cymraeg yn Nhredegar/Cwm Sirhywi. Bydd y ddarpariaeth hon yn trin y galw cudd a ddynodwyd o fewn yr ardal (mae mwy o wybodaeth yn y papur gwybodaeth amgaeedig). Sefydlir is-grŵp llawn o'r Fforwm Addysg Gymraeg ar gyfer cyfnod datblygu y ddarpariaeth egin, cyn gweithredu'r Rhaglen Band B. Fel ar 27 Medi 2017, gall y Cyngor gadarnhau fod y Pwyllgor Gweithredol wedi cytuno ar y Rhaglen Band B, yn amodol ar gymeradwyaeth arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys buddsoddiad o £1 miliwn i ddatblygu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal ymchwil i ddarpariaeth ffrwd ddeuol a chydlynu gyda sefydliadau presennol er mwyn cael gwybodaeth bellach ar lefel leol. Cynhelir ymchwil ddechrau 2018 gyda golwg ar drafod y canfyddiadau gyda Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent yn nhymor yr Haf 2018. Blaenoriaeth y Cyngor ar hyn o bryd yw rochi dysgwyr mewn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg; gyda'r ffocws am y 3 blynedd nesaf ar dwf darpariaeth blynnyddoedd cynnar a chynradd. Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn symud ymlaen â modelau ysgolion sy'n gwella'u hunain ac ysgolion pob oed 3-16, fodd bynnag caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei ddarparu ar sail ranbarthol. Mae'r Cyngor wrthi'n ymgynghori ar ddull hunan-wella yn cynnwys sefydlu mwy o gydweithio rhwng ysgolion. Fel canlyniad bwriedir ystyried gweithredu rhanbarthol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnal un adeilad ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ansawdd uchel ar hyn o bryd. Adeiladwyd Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn 2010 gyda buddsoddiad o £6 miliwn i gymryd lle Ysgol Brynmawr. Agorodd Bro Helyg ym mis Medi 2010 gyda lle ar gyfer 360 o ddisgyblion. Mae gan yr ysgol raddiad A o ran cyflwr ac addasrwydd. Ym mis Medi 2015 (Ionawr 2016) roedd 234 disgybl 3-11 oed (yn cynnwys darpariaeth feithrin ran-amser) ar y gofrestr, gyda chpasiti dros ben o tua 35%. Dengys ffurflen PLASC Blaenau Gwent ym mis Medi bod 30 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg allan o gohort o 790 sy'n gyfartal â 3.79%. Mae hyn yn ostyngiad, ond yn gyffredinol sefyllfa gymharol sefydlog ar ffigur 2014-15 o 5.4%. Mae nifer y derbyniadau meithrin ar gyfer 2016/17 yn 41. Fodd bynnag bydd Blaenau Gwent yn adolygu'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ymestyn y cynnig os oes lefelau o alw'n bodoli ymysg rhieni.

Fel canlyniad, rhagwelir y bydd mynd ymlaen ag amcanion Deilliant 1 yn cael effaith sylweddol ar y nifer sy'n mynychu blwyddyn 2 yn 2017. Felly, cafodd y targedau dilynol ar gyfer 2017 ymlaen eu gosod ar gyfer eu cynnwys o fewn y cynllun:

	2017	2018	2019	2020	2021
Blaenestyniadau Meithrin	24	33	30	28	29
Targedau Meithrin	10% (27)	10% (36)	10% (39)		

Bu trawsnewid mawr yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg ers ei rhoi mewn mesurau

arbennig ym mis Mawrth 2015. Mae 70% o'r staff addysgu wedi newid ac mae'r ysgol wedi symud o'r categori coch i'r categori oren y llynedd, gan anelu at symud cadarnhaol arall eleni, er mai dim ond newydd ddechrau mae'r broses categoriedd ac na chytunir arni tan fis Ionawr 2018.

Mae canlyniadau Bro Helyg wedi dangos gwelliant am y 3 blynedd ddiwethaf gyda chanlyniadau 2017 yn cymharu'n ffafriol iawn gyda chanlyniadau'r Awdurdod Lleol a hefyd ganlyniadau Cymru.

- a) Roedd canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen yn 100% mewn Addysg Personol a Chymdeithasol a Mathemateg a 97% yn Gymraeg ar Ddeiliant 5 (ymunodd 1 plentyn yn hwyr heb unrhyw Gymraeg), gan olygu ein bod yn uwch na chanlyniadau'r Awdurdod Lleol a Chymru ym mhob maes gyda FPI o 97%.
- b) Yng Nghyfnod Allweddol 2 roedd ein canlyniadau Lefel 4 hefyd yn uwch na chanlyniadau'r Awdurdod Lleol a Chymru heblaw am Gymraeg oedd yn 89%, 3% yn is na chanlyniadau Cymru. Saesneg – 94%, Mathemateg 97%, Gwyddoniaeth 94% a CSI 94%.

Bydd Bro Helyg yn parhau i weithio i wella'r lefelau 1+ yn y dyfodol. Mae'r Pennaeth, y Cyngor a'r Fforwm Addysg Gymraeg yn ymrwymedig i gydweithio i godi proffil yr ysgol yn unol â thaith gwella'r ysgol. Nod y gwaith fydd lleihau canfyddiadau negyddol o Ysgol Gymraeg Bro Helyg a hefyd addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol.

Mae tîm Trawsnewid Addysg y Cyngor, y tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'r tîm Chwarae a Mudiad Meithrin yn bwriadu gwneud y dilynol:

- Cyd-asesu ac ymateb i'r galw ar sail flynyddol
- Cwrdd unwaith y tymor I gynllunio ymgysylltiad rhieni, olrhain disgyblion cyn ac ar ôl iddynt fynd i osodiadau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg a throsglwyddo
- Sesiynau ymgysylltu cyfrwng Cymraeg gyda rhieni bob tymor
- Gweithio i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg Band B Ysgolion y 21ain Ganrif
- Sefydlu cysylltiadau effeithlon gyda darpariaethau egin arall e.e. Caerdydd
- Sefydlu Fforwm Rhieni a Chynllun Hyrwyddwyr Cyfrwng Cymraeg
- Adolygu cynnwys y llyfryn derbyniadau ysgol/gwefan
- Paratoi cyfres o astudiaethau achos o deuluoedd a ddewisodd addysg cyfrwng Cymraeg y gellir eu defnyddio mewn unrhyw ymgyrchoedd hyrwyddo/cyfyngau cymdeithasol
- Datblygu strategaeth y wasg a chyfathrebu
- Ymchwilio opsiynau a chyfleoedd hyfforddiant staff

Mae tîm Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae a'r Mudiad Meithrin yn cydweithio i ddatblygu grŵp chwarae cyfrwng Cymraeg (darpariaeth cyn ysgol) lle sefydlir galw a hyrwyddo/cynyddu cyfraddau galw gofal plant, a maes o law, addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cyngor wedi dynodi diffyg darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ardal Ebwy Fawr fel rhan o'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (2017) ac felly mae gan y tîm Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae y camau gweithredu dilynol yn eu cynllun gweithredu:

- Asesu'r galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg o sesiynau ymgysylltu rhieni
- Gweithio gyda phartneriaid yn y Fforwm Addysg Gymraeg i ganfod os y gallai gosodiad sesiwn cyfrwng Cymraeg fod yn ymarferol/cynaliadwy yn ardal Ebwy Fawr.

Mae'r dilynol yn ddetholiad o'r dadansoddiad bwlch yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant sy'n amlinellu'r canfyddiadau yng nghyswllt gofal plant cyfrwng Cymraeg:

Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg

Mae argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg gyfyngedig ar gael ym Mlaenau Gwent. Mae 2 Gylch Meithrin cyfrwng Cymraeg. Penderfynodd y trydydd Cylch Meithrin, Pobl Bach yn Nhredegar, ddod yn osodiad dwyieithog yn Ebrill 2017 ac nid yw felly yn aelod o'r Mudiad Meithrin. Mae'r darparwyr presennol mewn tair gwahanol ardal cynllunio cymunedol felly maent yn wasgaredig ac yn cynnig peth dewis darpariaeth iaith yn yr ardaloedd hynny ar gyfer plant rhwng 2 a 4 oed. Gwelodd y ddau Gylch Meithrin gynnydd mewn rhifau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Mudiad Meithrin wrthi'n casglu'r cyfraddau trosglwyddo ar gyfer 16/17, cyn eu hanfon at Lywodraeth Cymru - yr arwyddion yw eu bod yn llawer uwch na'r 13% a ragwelid yn ddechraeuol. Mae'n bwysig nodi fod staff y Cylchoedd Meithrin yn trafod 'Manteisio Bod yn Ddwyieithog' gyda'r rhieni. Mae teuluoedd yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd eu profiad yn y Cylch Meithrin er mai bwriad y teulu oedd i'r plentyn fynd i addysg cyfrwng Saesneg cyn mynychu. Fodd bynnag, gall yr oriau agor cyfyngedig effeithio ar ddewis rhieni ar gyfer y rhieni hynny sydd angen gofal plant dros ddyddiau hirach (6 awr a mwy). Mae pob gosodiad yn ddarparwyr Dechrau'n Deg ac yn manteisio o leoliadau gofalk plant Dechrau'n Deg.

Dengys yr arolwg rhieni fod 1% o'r plant yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yw'r brif iaith gyda 6% arall yn dweud eu bod yn gartrefi dwyieithog. Mae llawer o gefnogaeth ymysg rhieni i ddwyieithrwydd gyda 55% o rieni yn dymuno l'w plant ddod yn ddwyieithog, fodd bynnag dim ond 8% o rieni a fwriadai anfon eu plentyn i ysgol Gymraeg.

Pan ofynnwyd 'A oes unrhyw rwystrau sy'n effeithio ar eich gallu i fanteisio o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg?', ymatebodd 394 rhiant fel islaw:

- Na – 68% (269)
- Dim ar gael yn lleol – 7.8% (31)
- Dim ar gael ar gyfer yr oriau sydd eu hangen – 1.2% (5)
- Ystod oedran ddim yn briodol – 0.5% (2)
- Cost – 2% (8)
- Arall – 4.3% (17) Gofynnwyd am sylwadau, oedd yn cynnwys;
 - 'Dim yn siarad Cymraeg fy hun'
 - 'Arolwg Estyn yn wael iawn'
 - 'Pryderus gan nad ydw i'n siarad Cymraeg.'
 - 'Oes – plentyn mewn ysgol Anghenion Arbennig'
 - 'Mae'r unig ddarpariaeth yn ardal yr Awdurdod Lleol yn tanberfformio'n ddifrifol ac ni fyddwn yn dewis anfon fy mhentyn i ysgol yn y sefydliad

dysgu hwnnw’

- ‘Dim yn dymuno i S orfod teithio’
- ‘Dim ysgol gyfun Gymraeg leol. Roedd yn rhaid i fy merch hynaf deithio o Frynmawr i Bont-y-pŵl a bydd yn rhaid i fy merch 6 oed wneud yr un fath’
- ‘Dim llawer o leoedd - ond heb edrych arno'n iawn.’
- ‘Anawsterau gyda chludiant’
- ‘Trafferth yn yr ysgol Gymraeg, newydd symud i ysgol Saesneg’

O’r 31 o rieni a ddywedodd nad oes gofal plant ar gael yn lleol, mae’r gwasgariad daearyddol fel sy’n dilyn: Sirhywi – 8, Ebwy Fawr – 11, Gogledd Ebwy Fach – 3, De Ebwy Fach – 9. Dangosodd yr arolwg fod gwahaniaeth barn os oedd digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg gyda 29 o rieni’n dweud bod a 17 yn anghytuno. Credai 51 o rieni fod gofal plant ar gael yn eu dewis iaith, ond ni chredai 10 hynny. Dangosodd y galw ymysg rhieni a fesurwyd y byddai 2 riant yn edrych am ofal plant Cymraeg yn y dyfodol ac y byddai 21 yn edrych am ofal plant Cymraeg a Saesneg’.

Cynhaliodd y Fforwm Addysg Gymraeg arolwg yn nhymor yr Hydref 2016 i gasglu barn ar addysg gynradd/darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Cofnodwyd 67 ymateb fel sy’n dilyn:

- Dymunai 46% o rieni i’w plant fod yn rhugl yn y Gymraeg;
- Dywedodd 57% y teimlent y byddai eu plentyn yn manteisio o addysg cyfrwng Cymraeg;
- Dywedodd 28% o rieni eu bod yn defnyddio gofal plant ar hyn o bryd; a
- Dywedodd 28% hefyd y byddent yn dewis gofal plant cyfrwng Cymraeg pe byddai ar gael.

Mae canlyniadau’r ddau arolwg yn dangos lefel o alw am ofal plant cyfrwng Cymraeg yng nghwm Ebwy Fawr, er fod y nifer a gymerodd ran/lenwodd arolygon yn isel iawn ac felly mae angen mwy o waith ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn canfod maint y galw.

Yn hanesyddol, mae Cyngor Blaenau Gwent wedi sefydlu darpariaeth blynnydoedd cynnar cyfrwng Cymraeg na fedrid ei gynnal oherwydd gostwng yn y galw, felly bydd angen cynnal gwaith ymchwil ac ymgysylltu helaeth i sicrhau y caiff y ddarpariaeth gywir ei sefydlu, yn y lle cywir. Mae’r Cyngor yn bwriadu adolygu’r dull o ymgysylltu â chyfranogiad rhieni a sefydlu rhaglen o weithgaredd yn y mis nesaf i fod yn sail i waith pellach.

Cynllun gofal plant 30 awr

Datblygiadau Lleol

Yng nghyswllt y Cynnig Gofal Plant 30 awr mae gan Blaenau Gwent ddau osodiad sy’n dynodi fel rhai cyfrwng Cymraeg, gyda’r ddau wedi cofrestru i gyflwyno’r cynnig. Mae un gosodiad grŵp chwarae arall sy’n dynodi fel un cyfrwng Cymraeg a hefyd gyfrwng Saesneg ac 8 gofalwr plant sy’n dweud eu bod yn defnyddio’r Gymraeg fel iaith ychwanegol, 6 ohonynt wedi cofrestru fel darparwyr. Mae nifer o ddarparwyr eraill wedi cofrestru ar gyfer y Cynnig (6 gofalwr plant, 5 grŵp chwarae cyn-ysgol a 2 feithrinfa ddydd) sy’n dweud eu bod yn defnyddio’r Gymraeg fel iaith ychwanegol

wrth gyflwyno gofal plant. Allan o'r 126 o geisiadau a dderbyniwyd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, mae 17 wedi nodi dewis am ofal plant cyfrwng Cymraeg, sy'n gyfran sylweddol o rieni (13%). Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn cynnig dosbarth Meithrin llawn-amser; fodd bynnag dan y cynnig 30 awr mae'r plant yn dal i fedru cael mynediad i'w hawl gwyliau 9 wythnos. Mae Cylch Meithrin Helyg Bychan yn y broses o ymchwilio posibilrwydd agor y gosodiad yn ystod y gwyliau pe byddai digon o alw am hynny.

Mae'r Cyngor yn bwriadu monitro dilyniant y plant yn unol â galw cyfrwng Cymraeg. Hyd yma ni ddywedodd unrhyw rieni neu rywun â diddordeb fod diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael iddynt. Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu hyn yn rheolaidd. Mae'r tîm Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant ac Addysg a'r tîm Trawsnewid Addysg wrthi'n trafod gyda'r EAS a'r Mudiad Meithrin am y potensial i Gwddi Hw ym Mrynithel ddod yn ddarparwydd addysg cofrestredig.

Datblygiadau Rhanbarthol

Y bwriad ar gyfer y cylch cynllunio nesaf ar gyfer y Fforwm Rhanbarthol Cymraeg mewn Addysg yw cael pedwar grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu rhaglenni gwaith sylweddol. Mae ffocws un is-grŵp ar ddatblygiadau o fewn Blynyddoedd Cynnar. Bydd yr is-grŵp yma'n cynnwys swyddogion perthnasol o bob awdurdod lleol yng Ngwent, y Mudiad Meithrin a'r tri sefydliad Menter Iaith yn y rhanbarth, yn ogystal â chynrychiolaeth o RHAG neu sefydliadau eraill mewn cyfarfodydd perthnasol. Bydd y meysydd ffocws dechreuol yn cynnwys:

- Cynyddu'r nifer o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth yn cynnwys datblygu darpariaeth newydd yn ogystal ag ehangu darpariaeth bresennol drwy newid safle neu gynnig gwasanaethau ychwanegol.
- Hyfforddiant a recriwtio staff a gwella sgiliau Cymraeg ar draws y rhanbarth i ddatblygu cysondeb mewn defnydd iaith gan staff gosodiadau gofal plant i hyrwyddo ennill iaith, yn cynnwys cysylltu gyda'r ysgolion cynradd bwydo ar gyfer cysondeb mewn defnydd iaith a chefnogi trosglwyddo cadarnhaol.
- Cefnogaeth cynaliadwyedd a busnes i sicrhau fod gan bob gofal plant gynllun busnes cadarnhaol i sicrhau y caiff ei gynnal ac y gall gynyddu dros oes y cynllun hwn. Bydd y ffocws hefyd yn edrych sut y gall gosodiadau gofal plant dderbyn lleoedd a gyllidir drwy'r Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg ac Addysg Blynyddoedd Cynnar i wneud y defnydd gorau o unrhyw gyllid a dderbyniwyd yn ogystal â rhoi gwasanaeth ehangach i rieni sy'n talu ffi a chyflwyno darpariaeth gymunedol.
- Gwella cyfraddau trosglwyddo rhwng cylchoedd meithrin ac ysgolion cynradd.

Bydd y Cynnig Gofal Plant yn golygu bod angen nifer sylweddol mwy o leoedd gofal plant a gall y lleoliad fod yn hollbwysig i'w cynaliadwyedd felly bydd y grŵp hwn yn cysylltu gyda'r Fforwm Rhanbarthol Cymraeg mewn Addysg i sicrhau fod yr is-grŵp sy'n edrych ar gynllunio lleoedd ysgol yn cysylltu mewn gwaith datblygu gyda'r grŵp blynyddoedd cynnar yn datblygu darpariaeth gofal plant. Mae Blaenau Gwent wedi nodi ei ymrwymiad i ymchwilio a datblygu cyfleoedd cyd-leoli o fewn cyflwyniad Rhaglen Amlinellol Strategol Band B Ysgolion 21ain Ganrif y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cynnig am y rhaglen cyfalaf Cynnig Gofal Plant, a ddisgwylir yn y cyfnod 2018-2021.

Mae pob rhiant yn derbyn gwybodaeth ar addysg cyfrwng Cymraeg drwy'r llyfryn gwybodaeth ysgol i rieni/gofalwyr, a gaiff ei ddsbarthu gyda ffurflenni cais am dderbyn. Caiff y llyfryn, ffurflenni cais a phosteri eu cynhyrchu'n ddwyieithog, ac ar gais mynychir cyfarfodydd rhieni/gofalwyr mewn ysgolion i hyrwyddo cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg. Ymhellach, gall rhieni gael mynediad i wybodaeth ar ddarpariaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar drwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor.

Bydd Helyg Bychan (ar safle Bro Helyg) yn cefnogi hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach ac mae erbyn hyn wedi cofrestru fel darpariaeth Dechrau'n Deg gyda thua 14 o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant cymwys yn ystod y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn ddwyflwydd.

Mae'r Mudiad Meithrin yn darparu 2 Gylch Meithrin ym Mlaenau Gwent ar hyn o bryd - Cylch Meithrin Gwdihw (Brynithel) a Chylch Meithrin Helyg Bychan. Mae hefyd Gylchoedd Ti a Fi yn y Ganolfan Plant Integredig yn Nhŷ Bedwellte.

Bydd cynllun newydd gan Cymraeg i Blant yn cychwyn grwpiau ym Mlaenau Gwent o fis Hydref 2016. Gall teuluoedd fwynhau pob math o weithgareddau hwyliog megis tyllino babanod, canu ac amser stori a yoga babanod. Caiff manteision gofal ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg eu cyfleu i ddarpar rieni a theuluoedd gyda babanod a phlant ifanc gan sicrhau fod pawb yn gwybod am gyfleoedd i blant ddod yn ddwyieithog drwy fynychu Cylch Ti a Fi a Chylch Meithrin cyn symud ymlaen i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent yn cydnabod mai dim ond 13% o blant sy'n trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg o gylchoedd meithrin am rai o'r rhesymau dilynol megis dewis rhieni a materion cludiant ar gyfer addysg anstatudol.

Cynhelir amcanestyniadau o nifer disgyblion ddwywaith y flwyddyn. Mae'r amcanestyniad diweddaraf ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn seiliedig ar ffurflenni mis Medi 2015 yn dangos gostyngiad o 9.5% yn y nifer bresennol ar y gofrestr o gymharu â'r un amser y llynedd. Fodd bynnag, bu cynnydd yn y galw am leoedd disgyblion o gwm Ebwy Fach ers 2010. Mae gan yr ysgol bron 35% o leoedd gwag, sy'n cael blaenoriaeth i'w drin yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol hwn. Bydd y tîm Trawsnewid Addysg yn gweithio gyda Bro Helyg i:

- gynorthwyo'r ysgol gyda nifer o ddulliau hunan-gymorth. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad galluedd yn gynnar 2017 ar gyfer niferoedd derbyn yng nghylch 2018/2018 a lleoedd gwag yn y dyfodol yn gostwng.
- dadansoddi'r galw i ddysgwyr Cymraeg ymchwilio cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth addysg egin mewn ardal lle mae galw'n bodoli am leoedd dysgu cyfrwng Cymraeg.

Mae'r amcanestyniadau presennol ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Helyg hyd at 2020 yn awgrymu'n gryf y gellir cyflawni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol bresennol. Fodd bynnag, o fewn cynnig Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Blaenau Gwent, mae darpariaeth ariannol yn parhau'n ddiogel i gefnogi darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg pe byddai'r galw yn cynyddu. Yn yr Arolwg diweddaraf o alw am addysg Gymraeg a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016, dynodwyd peth galw na chaiff ei gyflawni ei ddynodi yn ardal Tredegar/Sirhywi. Fodd bynnag, cyfradd

ymateb isel oedd i'r holiadur a gylchredwyd gyda dim ond 2.79% o'r gynulleidfa darged yn ymateb. Byddai'r gyfradd ymateb isel yn awgrymu fod angen gwaith pellach ar sail genedlaethol, lleol a rhanbartholi benderfynu'r dulliau gorau ar gyfer dynodi galw na chaiff ei ateb ar hyn o bryd.

Fel rhan o'r broses dderbyn ar gyfer 2016/17, darparodd Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent lyfryn gwybodaeth dwyieithog i rieni/gofalwyr i bob rhiant gyda phlant yn dymuno sicrhau lle ysgol mewn ysgol feithrin, dosbarth derbyn ac ysgol uwchradd. Darparwyd ffurflenni cais Cymraeg hefyd i holl rieni plant Ysgol Gymraeg Bro Helyg oedd i wneud cais am le yn yr ysgol. Cynlluniwyd llyfryn 2016/17 i rieni/gofalwyr i hyrwyddo addysg o fewn y sir mewn ffurf rhwydd ei ddarllen, yn cynnwys ffotograffau o blant o ysgol Gymraeg Blaenau Gwent.

Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent wedi sefydlu proses dderbyn ar-lein yn ddiweddar ac mae hyn ar gael yn ddwyieithog. Mae'r tîm derbyn wedi rhoi dolen i dudalen Facebook Dewis Choice drwy wefan Blaenau Gwent a byddir yn cadw golwg ar hyn yn y dyfodol. Bydd Grŵp Lleol y Cynllun Strategol yn ymchwilio, cefnogi ac ehangu darpariaeth addysg Gymraeg drwy gylchlythyrau cyswllt partneriaeth / cyfryngau cymdeithasol / posteri / hysbysebion ac yn y blaen.

Bydd y Grŵp Fforwm Addysg Gymraeg Lleol yn cynyddu cyfleoedd i'r eithaf ac yn ymchwilio, cefnogi ac ymestyn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg drwy gylchlythyrau partneriaeth/cyfryngau cymdeithasol/posteri, hysbysebion ac yn y blaen. Cynhelir yr arolygon ymhlith rieni o'r galw am addysg Cymraeg ar sail flynyddol mewn modd amserol - h.y. yn unol gyda dyddiadau derbyniadau ysgol y Cyngor, yn arbennig y dyddiadau cau am leoedd meithrin ym mis Hydref. Mae nifer o fforymau i hyrwyddo pwysigrwydd dwyieithog a bydd y Grŵp Fforwm Lleol yn ystyried cysylltu gyda darpar rieni a chysylltu gyda'r bwrdd iechyd lleol i hyrwyddo'r Mudiad Meithrin a Cymraeg i Blant yn rhoi cyfle cyfartal. Gall cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru y bydd Blaenau Gwent yn fabwysiadwr cynnar ar gyfer y cynllun treialu 30 awr o ofal plant am ddim roi cyfle i ystyried y rhwystrau sy'n gysylltiedig gyda darpariaeth cludiant, yn arbennig ar gyfer rhieni yng Nghwm Sirhywi.

Bydd Cyfarwyddiaeth Addysg Blaenau Gwent yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer teuluoedd yn yr ardal a bydd yn cryfhau partneriaethau gyda Mudiad Meithrin, RhAG, Menter Iaith ac Urdd Gobaith Cymru i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ar gyfer plant a theuluoedd o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Mae Cyfarwyddiaeth Addysg y Cyngor yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Adran Adfywio a Chynllunio i sicrhau cytundebau ariannol adran 106; ar hyn o bryd mae cynigion ar gyfer tai newydd ond dim digon o alw i greu adeilad ysgol newydd ac mewn un ardal bydd yn gyfraniad tuag at ailfodelu. Yn seiliedig ar yr arolwg diweddaraf o alw am addysg cyfrwng Cymraeg nid oes unrhyw ofyniad i sicrhau lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol dan y ffrwd cyllid hwn. Fodd bynnag, caiff hyn ei adolygu ar sail flynyddol yn unol ag arolygon o alw rhieni.

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith ar ôl trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

Rhowch eich sefyllfa bresennol a thargedau am y tair blynedd nesaf yng nghyswllt nifer y dysgwyr blwyddyn 9 a gaiff eu hasesu yn y Gymraeg (laith Gyntaf).

Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Beth yw'r canran presennol o ddysgwyr ym Mlwyddyn 9 a gaiff eu hasesu yn y Gymraeg (laith Gyntaf)? Mae disgyblion presennol Blwyddyn 9 yn 3.7% o gohort Blaenau Gwent (675), gyda 24/171 yn Ysgol Gwynllyw yn dod o Flaenau Gwent, caiff pob disgybl (100%) eu hasesu ym mhob pwnc (heblaw Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg	2.8% (21/756)	3.2% (22/682)	4.49% (35/779)
Sut mae'r ffigur hwn yn cymharu gyda'r canran o ddysgwyr ym Mlwyddyn 6 a gafodd eu hasesu yn y Gymraeg (laith Gyntaf) dair blynedd yn gynharach? Ym mlwyddyn academiaidd 13/14 ym Mlaenau Gwent (blwyddyn 9 yn 16/17), addysgwyd 25 disgybl drwy gyfrwng y Gymraeg allan o gohort o 674 sy'n gyfwerth â 3.7%.	3.4% (26/756)	3.2% (22/682)	4.49% (35/779)
<u>Trosglwyddo effeithlon a pharhad ieithyddol</u>			
Gosodiadau gofal plant nas cynhelir cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant dan 3 ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen? 13% (symudodd 13 o 103 plentyn yn y cylch Meithrin i ddsbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg yn 15/16)	20%	Adolygiad blynyddol	Adolygiad blynyddol
Gosodiadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 a gosodiadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen? Nid yw Blaenau Gwent yn cyllido unrhyw osodiadau nas cynhelir*	-	-	-
Gosodiadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg (dwyieithog) a gynhelir? Nid oes gan Blaenau Gwent unrhyw	-	-	-

<p>ddarparwyr nas cynhelir a gyllidir</p>			
<p>Gosodiadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed a gosodiadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac wedyn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a gynhelir? Nid oes gan Blaenau Gwent unrhyw ddarparwyr nas cynhelir a gyllidir *.</p>	-	-	-
<p>Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2? Ym mlwyddyn academiaidd 2015/16, o'r 27 disgybl a aseswyd mewn Cymraeg Iaith Gyntaf, mae 24 wedi aros yn Ysgol Bro Helyg.</p>	24	30	38
<p>• Cyfnodau Allweddol 2 a 3 ? Ym Mlaenau Gwent ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, cafodd 22 disgybl eu hasesu mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) ac aeth 21 o'r disgyblion hyn i Ysgol Gyfun Gwynllyw.</p>	29	40	24
<p>Wrth drosglwyddo rhwng Cyfnod Allweddol 2 (Cyfrwng Cymraeg) a Chyfnod Allweddol 3 (Cyfrwng Cymraeg), trosglwyddodd 95.6% o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 ym Mlaenau Gwent. Trosglwyddodd 1 disgybl i osodiad cyfrwng Saesneg.</p>	100%	100%	100%
<p>• Cyfnod Allweddol 3 a 4? Yn y trosglwyddo rhwng Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4, fe wnaeth pob disgybl drosglwyddo ac aros o fewn gosodiad cyfrwng Cymraeg. Oherwydd i un disgybl symud i Awdurdod Caerffili, trosglwyddodd o Ysgol Gyfun Gwynllyw i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni rhwng Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10.</p>	100%	100%	100%
<p>• Os oes gan eich awdurdod ysgolion uwchradd dwyieithog (categoriâu 2A, 2B, 2C a 2CH, rhowch ddata ar</p>	d/g	d/g	d/g

gyfer pob ysgol yn dangos faint o ddisgyblion sydd yn y ffrwd Gymraeg a faint sydd yn y ffrwd Saesneg, yn ôl Cyfnod Allweddol. Nid oes ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg o fewn y Fwrdeisdef Sirol.			
--	--	--	--

Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r canlyniad hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled)

- **Sicrhau cyfradd trosglwyddo uchel i addysg cyfrwng Cymraeg o CA2 i CA3 erbyn 2020.**
- **Gwella proffil Ysgol Gymraeg Bro Helyg o fewn Blaenau Gwent er mwyn denu disgyblion i addysg cyfrwng Cymraeg**
- **Gwella cyswllt rhwng Ysgol Gymraeg Bro Helyg a gosodiadau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg a gosodiadau eraill er mwyn cynyddu nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol yn y cyfnod sylfaen**
- **Cynyddu'r nifer sy'n dechrau yn y dosbarth meithrin yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg drwy gynnig lleoedd meithrin llawn-amser o 31 Hydref 2016.**
- **Ysgol Gymraeg Bro Helyg ac Ysgol Gyfun Gwynllyw i gynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau pontio academaidd ar gyfer e.e. gwersi misol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.**

Datganiad Cefnogi:

Mewn blynyddoedd diweddar bu nifer y disgyblion a aseswyd yn Gymraeg ym Mlwyddyn 9 yn fras debyg i'r nifer a aseswyd ym Mlwyddyn 6. Nid oes gwahaniaeth sylweddol. Un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sydd ac mae pob disgybl yn trosglwyddo o'r ysgol hon i osodiad Cyfnod Allweddol 3 mewn awdurdod lleol cyfagos. Dyfarnodd arolwg Estyn o'r ysgol gynradd ym Mawrth 2015 fod yr ysgol angen Mesurau Arbennig. Cafodd hyn effaith niweidiol ar nifer y disgyblion sydd wedi parhau yn yr ysgol ac ar nifer y disgyblion a ddewisodd fynychu'r ysgol. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd ers Mawrth 2015 wrth fynd i'r afael â'r materion a ddynodwyd, fel yr adroddwyd drwy drefniadau monitro yr awdurdod lleol ac ymweliadau monitro Estyn. Cafodd yr ysgol ei thynnu o fesurau arbennig o fewn un flwyddyn oherwydd y cynnydd rhagorol a sicrhawyd mewn cyfnod byr. Yn neilltuol, bu gwelliannau ardderchog mewn safonau darllen, ysgrifennu, rhifedd a sgiliau allweddol. Mae lefelau presenoldeb disgyblion hefyd wedi gwella. Gwnaed cynnydd sylweddol mewn gwella ansawdd addysgu, olrhain disgyblion a threfniadau asesu, ac mae'r ysgol wedi datlbygu arweinyddiaeth a llywodraethiant cryf sy'n cael argraff effeithlon ar broffil ei pherfformiad cyfredol sy'n dda.

Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg wedi cyflwyno lleoedd meithrin llawn-amser o fis Hydref 2016 ymlaen ar gyfer disgyblion i gefnogi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Rhagwelir y bydd hyn yn ysgogi a diwallu dewis rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg gan eu bod yn gwneud y penderfyniad am addysg eu plant pan fydd y plant hynny'n ifanc iawn. Mae hyn yn cysylltu gyda darpariaeth

gwasanaeth allweddol mewn gosodiadau blynyddoedd cynnar a gosodiadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed.

O fewn cylch oes y Cynllun Strategol, bydd gan Bro Helyg gapasiti digonol i ddarparu ar gyfer cynnydd posibl mewn dysgwyr ychwanegol. Fel canlyniad, gyda'r adolygiad diweddar o'r dalgylch a gynhaliwyd gan Gyngor Bwrdeisdref Sirol Torfaen, bydd Ysgol Gyfun Gwynllyw - yr ysgol ardal dalgylch ar gyfer dysgwyr Blaenau Gwent - hefyd yn gallu darparu ar gyfer dysgwyr ar ôl 2020.

Bydd y Fforwm Addysg Gymraeg yn gweithio i fonitro a gwella'r canrannau o ddysgwyr a aseswyd ddiwedd pob Cyfnod Allweddol ac i dyfu/ysgogi galw drwy gydol cylch oes y Cynllun Strategol.

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.

Y sefyllfa bresennol a'r targedau'n cyfeirio at y canran o ddysgwyr a gyflwynir am TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a gyflwynir hefyd am o leiaf ddau gymhwyster arall Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Pob disgybl mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Gwynllyw 100%	100%	100%	100%

Amcanion:

- **Gweithio gyda Chyngor Torfaen i sicrhau fod darpariaeth ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yn cydymffurfio gyda Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.**

Datganiad Cefnogi:

Mae disgyblion Blaenau Gwent mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Gwynllyw (Torfaen). Mae hyn gydag ychydig iawn o eithriadau ac yn gyfartal â tua 35 o ddisgyblion y flwyddyn. Caiff disgyblion Blaenau Gwent sy'n mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw ar hyn o bryd eu cyflwyno ar gyfer dau TGAU Mathemateg, dau Wyddoniaeth, tri TGAU opsiynol a Bac Cymru, drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ychwanegol at Gymraeg/Llenyddiaeth Gymraeg. Bydd agor Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yng Nghasnewydd yn sicrhau bod lleoedd ar gael ar gyfer disgyblion o Flaenau Gwent ar gyfer cyfnod y Cynllun Strategol.

Canran y dysgwyr a gyflwynwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) drwy gael eu cyflwyno am o leiaf **bump arall** o gymwysterau lefel 1 neu lefel 2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg:

Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Pob disgybl mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Gwynllyw	100%	100%	100%

Amcanion:

- **Cynnal darpariaeth 14-19 ar lefel gweithgareddau darpariaeth grant 14-19;**
- **Gweithio drwy'r Rhwydweithiau 14-19 a'r Fforymau Rhanbarthol 14-19 i gynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg.**

Datganiad Amcanion:

Mae Ysgol Gyfun Gwynllyw yn gweithio mewn partneriaeth gref gydag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a bu'r ddwy ysgol yn flaengar wrth sicrhau darpariaeth 14-19 iach drwy strategaeth 'Partneriaeth 6'. Mae dileu'r grant 14-19 yn fygythiad sylweddol i'r strategaeth hon ac amrywiaeth y cyrsiau a gynigir i ddisgyblion Blaenau Gwent sy'n mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw ar hyn o bryd. Mae costau cludiant yn straen ychwanegol ar hyfywedd cyrsiau a bydd angen ei drin ar lefel ranbarthol.

Oherwydd bod un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn gorfod cynnig 25 cwrs ar 14-16 a 30 cwrs 16-19, felly, bydd sicrhau niferoedd hyfyw yn anodd bob amser. Dylid ystyried gostwng nifer y cyrsiau y mae'n rhaid i ysgolion cyfrwng Cymraeg eu cynnig. Dylai hyn fod yn is nag mewn ysgolion uwchradd eraill gan nad yw mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn lleol ar gael yn rhwydd gyda chostau cludiant ac argaeledd cludiant yn effeithio ar hyfywedd cyrsiau. Bu Cwm Rhymni a Gwynllyw yn greadigol yn eu partneriaeth lle mae staff yn teithio i ddysgu cyrsiau amgen neu gyrsiau gyda galw isel ond yn dilyn dileu'r grant, nid yw hyn mwyach yn hyfyw yn ariannol ac ni fydd byth yn hyfyw oherwydd y niferoedd isel.

Defnyddir data i ddynodi cyrsiau llwyddiannus a chyflawniad uchel. Caiff y rhain eu cefnogi lle gallai cyrsiau nad ydynt yn cyflawni safonau perfformiad a ddisgwylir eu hamnewid gyda chysiau mwy addas i anghenion y disgyblion.

Daeth y Fforymau 14-19 i ben yn swyddogol, fodd bynnag mae CYDAG De Ddwyrain Cymru yn parhau i gwrdd i ymchwilio posibilrwydd parhau arferion megis trefnu cynadleddau a chyfarfodydd cydweithio staff oedd yn eu lle hyd fis Mawrth 2016. Bydd angen creadigrwydd ac ymrwymiad i alluogi parhad.

Yn y gorffennol mae Gwynllyw a Chwm Rhymni wedi cynnal cyfarfodydd llywodraethiant ar y cyd i gasglu, dadansoddi a defnyddio data ar gyfer darpariaeth 14-19 cyfrwng Cymraeg a chynllunio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 o fewn partneriaethau. Caiff hyn ei ail-lansio i gynnwys y ddarpariaeth uwchradd newydd yn Ysgol Gwent Is Coed.

Mae gan Goleg Gwent 54 o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg wedi ymrestru ar gyfer Campws Hafan Dysgu Blaenau Gwent ar gyfer 2016/17, gyda 35 ohonynt yn byw ym Mlaenau Gwent. Mae'r ymrestru'n dal i fynd rhagddo felly gall y nifer hwn newid. Nid yw'n bosibl ar y cam cynnar hwn i'r Coleg ddweud yn fanwl gywir faint o ddysgwyr

fydd yn astudio'n ddwyieithog, fodd bynnag mae hyn fel arfer tua traean. Mae'r Coleg wedi gosod targed i'w hunan i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'n ddwyieithog gan 10% bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf.

Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg

Sefyllfa Bresennol:	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Cymraeg: Mae disgyblion o Flaenau Gwent ar hyn o bryd yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Gwynllyw, Torfaen.	35	29	40
Cymraeg Ail Iaith: A oes gan yr Awdurdod neu Goleg Gwent unrhyw ddata ar gyfer nifer y disgyblion sydd wedi ymrestru ar gyfer Safon UG/Uwch Cymraeg Ail Iaith? Dim ond ar gyfer y flwyddyn academiaidd bresennol mae data ar gael (35 myfyriwr 2016/17).			

Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled a chyfeirio at atodiad 1 ar gyfer y data y dylid ei gynnwys ar gyfer y deilliant yma)

Amcanion

- Sicrhau fod ysgolion cyfrwng Saesneg yn gwybod am weledigaeth yr awdurdod lleol i gynyddu niferoedd lefel UG/Uwch a gweithio gyda Choleg Gwent i fonitro galw.
- Annog ysgolion cyfrwng Saesneg i gynyddu darpariaeth ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith ar CA3 a CA4 fel y cynyddir galw cwrs llawn TGAU ac y caiff y ddwy iaith eu defnyddio'n eang fel cyfryngau cyfathrebu.
- Annog ysgolion cyfrwng Cymraeg i gyflwyno bron bob disgybl ar gyfer TGAU Cymraeg Cwrs Llawn pan ddaw'r cwrs byr presennol i ben yn 2018 (nid yw'n rhaid cyflwyno disgyblion ar gyfer unrhyw arholiadau yn Cymraeg Ail Iaith ar hyn o bryd) a chynllunio ar gyfer gweithredu Dyfodol Llwyddiannus i sicrhau cymhwysedd drafodiadol ar gyfer pob disgybl 16 oed.

Datganiad Cefnogi:

Mae gan Ysgol Bro Helyg fynediad i ystod o raglenni llythrennedd Cymraeg a datblygiad proffesiynol parhaus drwy eu cyswllt yn rhwydwaith llythrennedd rhanbarthol EAS a chefnogaeth uniongyrchol gan gynghorydd llythrennedd yn y Gymraeg. Mae'r rhaglenni sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys cynllun 'Cyfathrebu'n Gyntaf' ar gyfer llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen a 'Ar Lafar', 'Y

Darllenwr Dygn, *'Ditectifs Darllen'* a *'Seiliau Sgrifennu'* sydd i gyd wedi eu targedu ar ddatblygu llythrennedd ym mhob un o'r targedau cyrhaeddiad ar draws pob cyfnod. Mae hyn yn cynnwys CA3 i sicrhau dull cyffredin at addysgu a dysgu sgiliau pan fo disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Gwynllyw. Mae cefnogaeth ysgol i ysgol strwythuredig ar gael i ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth drwy drefniadau cefnogaeth llythrennedd Consortiwm De Ddwyrain Cymru gydag ysgolion arweiniol ar gyfer llythrennedd yn arwain agweddau o'r rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus a amlinellwyd.

Bydd mabwysiadu'r cynllun *Siarter Iaith* o fis Medi 2016 yn rhoi cefnogaeth bellach i ysgolion y rhanbarth mewn gwella hyder a gallu disgyblion mewn defnyddio'r Gymraeg tu mewn a hefyd tu allan i'r ystafell ddosbarth. Bydd Ysgol Bro Helyg yn sicrhau safon aur y *Siarter* erbyn mis Gorffennaf 2019.

Caiff ysgolion uwchradd eu hannog i roi amser digonol ar gyfer astudio Cymraeg fel ail iaith yn unol â'r TGAU Cymraeg newydd a addysgir o fis Medi 2017 a gyda gofynion y cwricwlwm newydd i sicrhau cymhwysedd trafodiadol ar ddiwedd CA4 ar gyfer pob disgybl ym mhob agwedd o fywyd ysgol. Bydd statws cyfredol heb fod yn greiddiol y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn parhau hyd 2021. Mae'n rhaid i ddisgyblion astudio'r Gymraeg i 16 oed ond nid oes unrhyw ofyniad i fyfyrwyr astudio am arholiad allanol yn y Gymraeg.

Mae gan Goleg Gwent gyrsiau Cymraeg Ail Iaith yng Nghampysau Hafan Dysgu Crosskeys a Blaenau Gwent ar hyn o bryd. Caiff dysgwyr ar raglenni dwyieithog blaenoriaeth e.e. gofal plant gynnig cyrsiau Cymraeg drwy Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gwent. Mae'r Coleg wedi gosod targed o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cwblhau cyrsiau Cymraeg ychwanegol gan 10% bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf. Mae pob dysgwr yn cwblhau unedau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chânt eu hannog i werthuso manteision dwyieithrwydd yn y gweithle. Mae gan y Coleg Glwb Cymraeg llwyddiannus yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn digwyddiadau anffurfiol e.e. ymweliadau, gweithgareddau awyr agored (yr Urdd). Mae'r Coleg wedi gosod targed ar gyfer cynyddu cyfranogiad yn nigwyddiadau'r Clwb Cymraeg gan 10% bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf. Cynigir cyfleoedd datblygu staff i'r holl staff i ddatbygu eu sgiliau addysgu dwyieithog ymhellach a sefydlu'r dimensiwn Cymraeg. Mae'r Coleg wedi gosod targed o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cwblhau gwaith yn Gymraeg gan 10% bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf. Mae gan y Goleg berthynas waith dda iawn gyda Menter Iaith ynghyd â gweithgareddau niferus a drefnir mewn cysylltiad â'r Urdd.

Bydd grwpiau lleol yr Urdd a Menter Iaith yn gweithio gydag ysgolion a'r gymuned i roi cyfleoedd i ymarfer eu sgiliau Cymraeg mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Bydd disgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg a hefyd cyfrwng Saesneg yn cael mynediad i'r cyfleoedd dilynol i ymarfer eu sgiliau Cymraeg mewn gosodiadau ffurfiol ac anffurfiol gyda phwyslais cynyddol ar gyfleoedd o'r ddwy gymuned i gydweithio fel y dangosir yn **atodiad 1**.

Mae llythrennedd yn y Gymraeg yn flaenoriaeth wella benodol yng nghynllun busnes Consortiwm EAS sy'n seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o berfformiad a meysydd datblygu yr ysgolion. Caiff y cynllun busnes ei adolygu bob 6 mis a'i ddiweddarau'n flynyddol. Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiadau cynnydd ar waith gwella ysgolion

Ilythrennedd Cymraeg EAS o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg bob tymor. Caiff anghenion hyfforddiant gweithlu eu cynllunio yng nghyswilt delliannau ar sail ranbarthol, leol a chlwstwr. Bydd y Cyngor a'r EAS yn rhoi cefnogaeth a her i ysgolion er mwyn gwella'u safonau'n barhaus ar ddangosyddion perfformiad ac yn neilltuoel eu darpariaeth ar gyfer y Gymraeg a dwyieithrwydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Targedig cefnogaeth mewn cyrannedd gwrthdro i lwyddiant. Mae gan bob ysgol gynradd ac uwchradd sy'n derbyn cefnogaeth a her lefel uchel ar gyfer y Gymraeg (ysgolion Cymraeg a Saesneg) gynlluniau cefnogaeth pwrpasol a gaiff eu monitro bob chwech wythnos. Yn ogystal a chefnogaeth arbenigol fewnol yn y Gymraeg a methodoleg ar gyfer athrawon a chefnogaeth ar gyfer arweinyddiaeth y Gymraeg gan dim Cymraeg LIC yr EAS bydd:

- Darpariaeth hyfforddiant iaith ganolog arbenigol gan EAS a chefnogaeth ddilynol ar gyfer ymarferwyr sy'n ymwneud a chynllun Sabothol Llywodraeth Cymru
- Cefnogaeth ar gyfer arweinwyr clwstwr a enwebwyd ar gyfer y Gymraeg (ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg) i feithrin gallu clystyrau
- Rhwydweithiau arweinyddiaeth, yn cynnwys rhwydweithiau penaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg
- Darpariaeth datblygiad proffesiynol parhaus gan athrawon cynradd ac uwchradd ac ysgolion arweiniol yn ogystal ag aelodau o Dim Cefnogaeth Cymraeg mewn Addysg y EAS
- Monitro darpariaeth ar gyfer a chefnogaeth ar gyfer addysgu TGAU newydd ar gyfer Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith a'r trosglwyddo o gwrs llawn i gwrs byr mewn Cymraeg Ail Iaith
- Rhaglenni addysgu arbenigol i wella addysgu yn y sector cyfrwng Cymraeg, 'Anelu at Ragoriaeth'
- Cefnogaeth ar gyfer defnydd anffurfiol o raglenni Cymraeg, Siarter Iaith a PCAI mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Chymraeg Campus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Rôl parneriaid allweddol megis yr Urdd, Y Plant, Mudiad Meithrin, y Gwasanaethau Ieunctor, Tîm Gofal Chwarae Blynyddoedd Cynnar a Chwarae ac yn y blaen wedyn fydd sicrhau defnydd cynyddol o'r Gymraeg mewn cyd-destun/gosodiadau anffurfiol yn unol â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd anffurfiol ar y Gymraeg gan blant a phobl ifanc.

Deilliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol

Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn (ar ffurf pwyntiau bwled).

- **Sicrhau fod darpariaeth briodol mewn ysgolion prif ffrwd ar gyfer pob disgybl gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg**
- **Sicrhau bod cydweithredu rhanbarthol yn parhau i gefnogi disgybion gydag ADY yn cynnwys darpariaeth anghenion cymhleth**
- **Cwblhau proses diwygio a datblygu prosesau ADY newydd i gefnogi dysgwyr gydag ADY**
- **Sicrhau fod pob dogfen newydd a diwygiedig ar ADY (ar gyfer defnydd gweithredol mewn ysgolion) ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Datganiad Cefnogi:

Bu cynnydd yn nifer siaradwyr Cymraeg mewn timau/gwasanaethau Addysg a gyflogir gan y Cyngor, yn arbennig ar gyfer darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd hyn yn cefnogi gwelliannau pellach yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg rhwng 2017-20. Gall ystod o swyddogion addysg proffesiynol sy'n siarad Cymraeg roi cyngor a chefnogaeth, yn cynnwys seicolegwyr addysgol, swyddogion gwella a chynhwysiant ysgolion, athrawon Anawsterau Dysgu Penodol, cefnogaeth ymddygiad arbenigol ac arweinwyr systemau. Yn ychwanegol, mae'r Gwasanaeth Cefnogi Synhwyraidd a Chyfathrebu rhanbarthol yn datblygu ei gefnogaeth Gymraeg ymhellach.

Nid oes gan Ysgol Gymraeg Bro Helyg unrhyw ddisgyblion sy'n mynychu ar hyn o bryd gyda Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Hefyd, mae canran gyffredinol disgyblion AAA ar Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn is na chyfartaledd Blaenau Gwent. Cynhaliwyd yr asesiad diwethaf yn Ionawr 2017 gyda'r nesaf ar y gweill ar gyfer Ionawr 2018. Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi sefydlu fod y ddarpariaeth gyfredol yn ddigonol ar gyfer anghenion dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn unol â gwaith Grŵp Rhanbarthol SEWC ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Nod y gwaith hwn yw meithrin cydweitho rhanbarthol cynyddol. Mae dosbarthiadau arbenigol cyfrwng Cymraeg o fewn CBS Caerffili, a allai ddarparu ar gyfer anghenion dysgwyr Blaenau Gwent os yw'r angen yn codi.

Caiff rhieni gyfle i gyfrannu at brosesau statudol drwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys asesiadau statudol ac adolygiadau blynyddol o Ddatganiadau Anghenion Addysgol Arbennig.

Cafodd yr adolygiad ADY ei gwblhau yn cynnwys newidiadau i brosesau cyllid, meini prawf a phaneli AAA. Mae prosesau a pholisïau newydd yn gwella gallu pob ysgol i reoli disgyblion gydag ADY ac mae'r newidiadau mewn trefniadau cyllido yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion i ddarparu cefnogaeth briodol ac amserol ar gyfer disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig.

Caiff polisïau a dogfennau ADY eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o'r cylch adolygu polisi. Mae dogfennau gweithredol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Deilliant 7: Cynllunio gweithlu a datblygiad proffesiynl parhaus

Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant yma (ar ffurf pwyntiau bwled).

Amcanion:

- **Archwilio sgiliau Cymraeg ymarferwyr (athrawon a chymhorthwyr addysgu) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg a chylchoedd meithrin yn flynyddol i asesu anghenion hyfforddiant.**
- **Paratoi cynllun systematig i ryddhau staff ar gyfer hyfforddiant cynllun Sabothol ar y cyd gydag ysgolion a chlystyrau.**
- **Cynlluniau gwella ysgolion i ddangos ymrwymiad i wella sgiliau ieithyddol ymarferol, gan weithio gyda Swyddogion Cymraeg mewn Addysg (ysgolion**

cyfrwng Saesneg) a thrwy ryddhau staff yn systematig i fynychu hyfforddiant cynllun Sabothol) yn ôl dadansoddiad anghenion.

- Gwella sgiliau methodolegol ymarferwyr drwy waith Swyddogion Cymreg mewn Addysg a thrwy gynlluniau ysgol-i-ysgol a gynlluniwyd

Datganiad Cefnogi:

Un ysgol cyfrwng Cymraeg sydd yn y Fwrdeisdref Sirol a hyd yma ni chafodd tîm Datblygu Sefydliadol y Cyngor sy'n arwain ar adnoddau dynol unrhyw anhawster o ran recriwtio neu ddatblygiad proffesiynol staff.

Mae'r tîm Datblygu Sefydliadol yn gweithio'n agos gyda EAS a chorff llywodraethu Ysgol Bro Helyg i sicrhau proses recriwtio effeithlon ar gyfer swyddi pennaeth a dirprwy bennaeth. Mae'r ysgol wedi recriwtio dirprwy bennaeth newydd o fewn y flwyddyn ddiwethaf ac mae'r broses wedi galluogi'r ysgol i sefydlogi ei strwythur rheoli. Mae'r ysgol yn cynnal ei recriwtio ac yn dethol ei staff ei hunan ac maent wedi llwyddo i sicrhau athrawon a hefyd staff cefnogi i swyddi.

Nifer isel sy'n dilyn yr hyfforddiant cynllun Sabothol ar hyn o bryd (ysgolion Cymraeg a Saesneg) ac mae angen cynllunio strategol, felly bydd y Fforwm yn gweithio gydag ysgolion i gynllunio ar gyfer rhyddhau staff a chymhorthwyr addysgu yn systematig i fynychu hyfforddiant Cynllun Sabothol Llywodraeth Cymru mewn ymateb i anghenion a ddangoswyd mewn archwiliadau cyfrwng Cymraeg a gynhaliwyd. Gellir defnyddio dull clwstwr wrth glwstwr. Bydd gwella sgiliau iaith staff, yn arbennig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ym Mlaenau Gwent yn hollbwysig wrth weithredu gweledigaeth Dyfodol Llwyddiannus a symud ymlaen gydag agenda Miliwn o Siaradwyr 2015.

Mae cydweithio iach rhwng ysgolion o fewn y Cyngor a thrwy'r model gweithio rhanbarthol. Mae rhaglen gynyddol o ddatblygiad proffesiynol parhaus cyfrwng Cymraeg (llythrennedd) ar gael i ysgolion cyfrwng Cymraeg gan EAS gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg arweiniol yn rhannu arfer da o fewn rhaglen ar y cyd a drefnwyd yn ganolog o gymorth ymgynghorol a seiliedig mewn ysgol (methodoleg). Mae hefyd raglen ranbarthol ysgol i ysgol i gefnogi athrawon i anelu am ragoriaeth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg: '*Anelu at Ragoriaeth*'. Mae gan ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg fynediad i raglen eang ac amrywiol o ddatblygu proffesiynol parhaus drwy raglen EAS o hyfforddiant iaith a methodoleg. Mae hefyd raglen o ymyriad wedi'i dargedu yn ei le ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a ddynodwyd i wella ethos Gymraeg ysgolion a iaith/methodoleg ymarferwyr.

Mae gan bob ysgol fynediad i raglenni arweinyddiaeth EAS (Paratoi i fod yn Bennaeth, CPCP a Phennaeth Ysgol B1 a B15). Mae cefnogaeth ar gyfer arweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg drwy raglenni partneriaeth cymheiriaid rhanbarthol gyda hwyluso secondiadau rhanbarthol lle'n briodol. Mae ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg y rhanbarth yn gweithio mewn partneriaeth gref, gan drafod recriwtio yn rheolaidd. I recriwtio cymhorthwyr addysgu cyfrwng Cymraeg, mae ysgolion uwchradd y rhanbarth yn trafod darparu cyrsiau addas (e.e. *Cache*) ar gyfer disgyblion.

Mae gan Goleg Gwent raglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer yr holl staff

addysgu i ddatblygu eu sgiliau wrth wreiddio'r dimensiwn Cymraeg. Ar y cyd â Sgiliaith, mae'r Coleg yn cynnig hyfforddiant i reolwyr mewn sefydlu'r Gymraeg yn y cwricwlwm ynghyd â help ymarferol i staff addysgu i gefnogi ac annog dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae gan tua 6% o staff academaidd Coleg Gwent sgiliau yn y Gymraeg a chaiff staff eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio'r sgiliau hyn gyda'u dysgwyr. Cynigir cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn rhad ac am ddim ar gyfer holl staff Coleg Gwent ac yn ystod oriau gwaith. Ymrestrodd 31 o staff Coleg Gwent ar gyrsiau'n dechrau ym mis Medi 2016. Mae'r Coleg yn ddiweddar wedi cymeradwyo polisi recriwtio newydd gyda'r nod o gynyddu nifer y staff addysgu a all gyflwyno'n ddwyieithog gan 10% bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf. O fis Medi 2016, bydd swyddi a ddaw o fewn Meysydd Blaenoriaeth Dwyieithog Llywodraeth Cymru e.e. gofal plant, yn rhai gyda'r Gymraeg neu ymrwymiad i ddysgu Cymraeg i lefel ganolradd o fewn 2 flynedd (a ariennir yn llawn gan y Coleg) yn hanfodol.

Rhaglen Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg Corfforaethol:

Mae gan y Cyngor ymrwymiad i ddatblygu sgiliau Cymraeg ein staff, yn unol â'r gofynion a nodir yn Safonau'r Gymraeg. Caiff dosbarthiadau ar gyfer staff corfforaethol eu darparu, sydd yn cynnwys y Gyfarwyddiaeth Addysg. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw ysgolion hyd yma wedi derbyn eu hysbysiadau cydymffurfiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg ac felly nid ydynt ar hyn o bryd yn dod dan ofynion Safonau'r Gymraeg. Mae angen rhoi gwybodaeth yn flynyddol fel rhan o'r adroddiad monitro i Gomisiynydd y Gymraeg am nifer y cyrsiau a'r nifer sy'n cymryd rhan.

Cyrsiau Gofal Plant - Mae'n bwysig cael aelodau staff gyda chymwysterau ansawdd uchel mewn cylchoedd meithrin. Mae'n rhaid i lefelau staffio ar gyfer pob gosodiad gyflawni gofynion statudol AGGCC a Chyngor Gofal Cymru. Mae'n profi'n anodd iawn i gyflogi staff gyda'r sgiliau yn y Gymraeg gyda'r lefel gywir o gymwysterau gofal plant i weithio mewn gosodiadau.

Drwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, mae'r Mudiad Meithrin yn cynnig hyfforddiant ar Diploma CACHE Lefel 3 mewn Gofal Plant, Dysgu a Datblygiad ar gyfer y rhai sy'n dymuno gweithio mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd a dosbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ledled Cymru. Mae'n rhaid i staff fod â'r cymhwyster hwn (neu gyfwerth) i weithio mewn gosodiad cyn-ysgol. Nid oes L3 mewn Cymorth Ystafell Ddosbarth na chymhwyster athro cymwys yn ymddangos ar y 'Rhestr o gymwysterau sydd eu hangen i weithio o fewn y gweithlu sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant'.

Er mwyn diwallu gofynion 30 awr o ofal plant rhad ac am ddim bydd angen i Blaenau Gwent gynyddu nifer yr ymarferwyr gyda'r sgiliau angenrheidiol yn y Gymraeg a'r cymwysterau sydd ar gael i weithio mewn gosodiadau gofal plant cyfrwng Cymraeg (yn cynnwys Cylchoedd Meithrin).

- Ystyried marchnata gyrfaedd mewn gofal plant gyda disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Gwynllyw a Choleg Gwent. Cynnig cyfleoedd presentisiaeth yn unol â Datganiad Cefnogi Cynnydd ar gyfer Llywiddant.
- Hyrwyddo Cam wrth Gam (is-gwmni i'r Mudiad Meithrin) sydd â tharged o hyfforddi 208 o brentisiaid erbyn mis Gorffennaf 2018).

Llofnod: *L. Jones*
(Prif Swyddog,)

Dyddiad:20.12.16.....

Data (Atodiad 1)

Nodwch y negeseuon allweddol o'ch data yn yr adran berthnasol yn y templed,

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Ehangu'r ddarpariaeth

Pa ganran o blant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd?

Yn PLASC mis Medi 2016 nodir bod 30 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg allan o gohort o 780 sy'n gyfartal â 4.6%

Aseswyd bod 3.5% o ddisgyblion Blwyddyn 2 Blaenau Gwent mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2016.

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith ar ôl trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

Beth yw'r canran presennol o ddysgwyr ym Mlwyddyn 9 a gaiff eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf)?

O blith disgyblion presennol Blwyddyn 9 (2016/17) caiff 3.7% sef 24 allan o 674 o ddisgyblion Blaenau Gwent ac 171 o ddisgyblion Gwynllyw (100%) eu hasesu ym mhob pwnc (heblaw Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg

Sut mae'r ffigur hwn yn cymharu gyda'r canran o ddysgwyr Blwyddyn 6 a gafodd eu hasesu yn Gymraeg (Iaith Gyntaf) dair blynedd yn gynharach?

Ym mlwyddyn academaidd 13/14 ym Mlaenau Gwent (blwyddyn 9 yn 16/17), addysgwyd 25 (/674) disgybl drwy gyfrwng y Gymraeg allan o gohort o 674 sy'n gyfartal â 3.7%.

Trosglwyddo effeithlon a pharhad ieithyddol Fforwm Addysg Gymraeg - Data Trosglwyddo

Beth yw'r cyfraddau dilyniant rhwng:

gosodiadau gofal plant nas cynhelir cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant dan 3 ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a gynhelir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen?	13% (symudodd 13 o 103 plentyn o ofal Meithrin i ddisbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg yn 15/16)
gosodiadau plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant dan 3 nas cynhelir a gosodiadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen?	Nid ydym yn cyllido unrhyw osodiadau nas cynhelir*
gosodiadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a gynhelir?	Nid ydym yn cyllido unrhyw ddarparwyr nas cynhelir.*
gosodiadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed a gosodiadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac wedyn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a gynhelir?	Nid ydym yn cyllido unrhyw ddarparwyr nas cynhelir.

*ni chaiff gosodiadau eu cyllido gan yr Awdurdod Addysg Lleol ond maent yn derbyn cyllid Dechrau'n Deg.

Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2?

Ym mlwyddyn academaidd 2015/16, o'r 27 disgybl a aseswyd mewn Cymraeg Iaith Gyntaf, mae 24 wedi aros yn Ysgol Bro Helyg. Mae 3 wedi gadael ond ni wyddom i ble'r aethant.

- Cyfnodau Allweddol 2 a 3?

Ym Mlaenau Gwent ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, cafodd 22 disgybl eu hasesu mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) ac aeth 21 o'r disgyblion hyn i Ysgol Gyfun Gwynllyw.

Yn y trosglwyddo rhwng Cyfnod Allweddol 2 (Cyfrwng Cymraeg) a Chyfnod Allweddol 3 (Cyfrwng Cymraeg), trosglwyddodd 95.6% o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 ym Mlaenau Gwent. Trosglwyddodd 1 disgybl i osodiad cyfrwng Saesneg.

- Cyfnodau Allweddol 3 a 4?

Yn y trosglwyddo rhwng Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4, fe wnaeth pob disgybl drosglwyddo ac aros o fewn gosodiad cyfrwng Cymraeg. Oherwydd i un disgybl symud i Awdurdod Caerffili, trosglwyddodd o Ysgol Gyfun Gwynllyw i Ysgol Gyfun Cwm Rhymini rhwng Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10.

Os oes gan eich awdurdod ysgolion uwchradd dwyieithog (categoriâu 2A, 2B, 2C a 2CH), rhowch ddata ar gyfer pob ysgol yn dangos faint o ddisgyblion sydd yn y ffrwd Gymraeg a faint sydd yn y ffrwd Saesneg, yn ôl Cyfnod Allweddol.

Dim yn berthnasol

Deiliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

100% Gwynllyw

Deiliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.

Cynyddu'r canran o ddysgwyr 14-16 oed sy'n astudio am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Beth yw canran presennol dysgwyr Blwyddyn 11 a gyflwynir am TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf sy'n astudio am 5 neu fwy arall o gymwysterau Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg? (Ni ddylid cynnwys Llenyddiaeth Gymraeg. Mae TGAU Cymwysedig, gwyddoniaeth ddwbl yn cyfrif fel dau bwnc; mae cyrsiau byr yn cyfrif fel un pwnc. Gall fod nad yw'n bosibl cynnwys BTEC oherwydd nad yw'r corff dyfarnu yn gwahaniaethu rhwng cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg)

Ar hyn o bryd, caiff yr holl ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 yn Ysgol Gyfun Gwynllyw eu cyflwyno am y ddau bapur TGAU Mathemateg, o leiaf un pwnc TGAU Gwyddoniaeth, TGAU Iaith Gymraeg a TGAU Iaith Saesneg, isafswm felly o bum pwnc. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn astudio rhwng pedwar a chwe phwnc arall i lefel TGAU hefyd. Felly y canran yw 100%.

Beth yw targedau'r awdurdod ar gyfer cynyddu'r targed hwn? Gellir nodi hyn un ai fel targedau blynyddol neu fel un targed ar ddiwedd y cynllun.

Nid oes cynlluniau i gynyddu'r targed.

Beth yw canran presennol dysgwyr Blwyddyn 11 a gyflwynir am TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf sy'n astudio am 2 neu fwy arall o gymwysterau Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg?

(NI ddylid cynnwys Llenyddiaeth Gymraeg. Mae TGAU Cymwysedig, gwyddoniaeth ddwbl yn cyfrif fel dau bwnc; mae cyrsiau byr yn cyfrif fel un pwnc. Efallai nad yw'n bosibl cynnwys BTEC oherwydd nad yw'r corff dyfarnu yn gwahaniaethu rhwng cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg)

Fel uchod

Beth yw targedau'r awdurdod ar gyfer cynyddu'r canran yma?

Fel uchod

Gellir nodi hyn un ai fel targedau blynyddol neu fel un targed ar ddiwedd y cynllun.

Cynyddu'r canran o ddysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion

Beth yw canran dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy a) gyfrwng y Gymraeg b) yn ddwyieithog (e.e. elfennau cymwysterau/modiwlau)?

Mae pob disgybl (100%) ym Mlynnyddoedd 12 a 13 (16-19) yn astudio dau neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Gyfun Gwynllyw.

Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg

Gwella darpariaeth a safonau mewn Cymraeg Iaith Gyntaf

Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd o leiaf Ddeilliant 5 y Cyfnod Sylfaen mewn Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/Dwyieithog?

Ym mlwyddyn academaidd 2015/16, cyrhaeddodd 96.3% o ddisgyblion lefel disgwyliedig mewn Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu.

Gwybodaeth ychwanegol:

Cynnydd sylweddol o 29.3 pwynt canran ar 2015 (67%)

Perfformiad yn uwch na Chymru (90.7%) gan 5.6 pwynt canran

Perfformiad yn uwch na De Ddwyrain Cymru (93.4%) gan 2.9 pwynt canran

Mae'r tueddiad 3 blynedd yn dangos cynnydd o 20.6 pwynt canran

Mae Blaenau Gwent yn yr ail safle yng Nghymru yn 2016, 20 lle yn uwch nag yn 2015.

Beth yw canran dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn asesiad athrawon yn Gymraeg?

Ym mlwyddyn academaidd 2015/16, cyflawnodd 81.8% o ddisgyblion y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg Iaith Gyntaf.

Gwybodaeth ychwanegol:

Canlyniadau wedi cynyddu ar 2015 (69.2%) gan 12.6 pwynt canran

Perfformiad yn is na Chymru (90.8%) gan 9.7 pwynt canran

Perfformiad yn uwch na De Ddwyrain Cymru (93.1%) gan 11.3 pwynt canran

Mae'r tueddiad 3 blynedd yn dangos gostyngiad o 6.2 pwynt canran

Mae Blaenau Gwent yn y 22ain safle yng Nghymru yn 2016, yr un safle ag yn 2015

Pa ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn asesiad athrawon yn Gymraeg?

Y canran o ddysgwyr yn Ysgol Gyfun Gwynllyw a gyrhaeddodd o leiaf Lefel 5 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn 2016 yw 87.7%. (Cymru 92%).

Pa ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n ennill graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf?

Y canran dysgwyr yn nata darpariaeth L2 Ysgol Gyfun Gwynllyw: 75.4% TGAU A* i C (Iaith/Llen) ar ddiwrnod Cyfnod Allweddol 4 yn 2016 yw dim ond 75%.

Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith

Pa ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 yn yr asesiad athrawon o Cymraeg Ail Iaith?

Ym mlwyddyn academaidd 2015/16, cyflawnodd 80.5% (Cymru 77.9%) o ddisgyblion y lefel ddisgwyliedig yn yr asesiad o Cymraeg Ail Iaith.

Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 yn asesiad athrawon o Cymraeg Ail Iaith?

Ym mlwyddyn academaidd 2015/16, cyflawnodd 78.0% (Cymru 81.9%) o ddisgyblion y lefel ddisgwyliedig yn yr asesiad o Cymraeg Ail Iaith.

Pa ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni graddau A*-C mewn cwrs llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith?

O'r 222 disgybl a safodd TGAU Cymraeg Cwrs Llawn ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2014/15, cafodd 163 bas gradd A*-C, sy'n gyfartal â 75.8%. (Mynediad ar y cwrs llawn = 31.9% o'r cohort).

O'r 242 disgybl a safodd TGAU Cymraeg Cwrs Llawn ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2015/16, cafodd 180 bas gradd A*-C, sy'n gyfartal â 75.8%. (Mynediad ar y cwrs llawn = 37.1% o'r cohort). Cynnydd mewn ceisiadau cyrsiau llawn fel% o'r garfan ar 2014/15, cynnydd o 5.2 pwynt canran. Mae'r safonau yn weddol sefydlog ar tua 75%

Pa ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr?

O'r 308 disgybl a safodd TGAU Cymraeg Cwrs Byr ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2014/15, cafodd 125 bas gradd A*-C, sy'n gyfartal â 44.6%.

(Mynediad am y cwrs byr = 41.3% o'r cohort).

O'r 274 disgybl a safodd TGAU Cymraeg Cwrs Byr ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2015/16, cafodd 99 bas gradd A*-C, sy'n gyfartal â 36.1%.

(Mynediad am y cwrs byr = 42% o'r cohort).

*Cafodd disgyblion sy'n cael pas yn y Cwrs Llawn eu tynnu o'r rhestr Cwrs Byr i osgoi eu cyfrif ddwywaith.

Beth yw eich targedau ar gyfer gwella ym mhob un o'r uchod - un ai flwyddyn ar flwyddyn neu ar ddiwedd cyfnod y cynllun 3 blynedd?

Pa ganran o'r cohort a gaiff eu cyflwyno ar gyfer (i) TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn; (ii) TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr; a (iii) heb eu cyflwyno am y naill na'r llall?

Caiff targedau ar gyfer gwelliant mewn perfformiad disgyblion eu gosod gan ysgolion yn seiliedig ar ddata lefel disgybl unigol. Caiff y targedau hyn eu hadolygu bob tymor, eu herio a'u monitro gan Gynghorwyr Her EAS. Gosodir targedau 2017 yn nhymor yr Hydref 2016. Ar gyfer Cymraeg Ail Iaith unrhyw dargedau eu pennu gan ysgolion ar gyfer yr EAS yn CA4 oherwydd statws di-graidd Cymraeg Ail Iaith (hyd at ddiwedd CA3 yn unig). Bydd angen i'r Awdurdod Lleol i osod targedau sy'n seiliedig ar dueddiadau (2015.16 ffigurau isod) ond yn anodd iawn i'w wneud gan ei fod yn dibynnu os Cyrsiau Llawn / Trefnu yn rhedeg yr ysgol, mynd i mewn, neu beidio cofrestru disgyblion. DYLA! Mae pob disgybl yn eistedd Cwrs Llawn erbyn 2019 mai dim ond llawn cwrs yn cael ei gynnig o fis Medi 2017. mynediad cyrsiau byr diwethaf: haf 2018

Yn 2015:

- i) Cyflwynwyd 222 disgybl allan o gohort o 673 (33%) ar gyfer Cymraeg Cwrs Llawn.
- ii) Cafodd 308 o ddisgyblion allan o gohort o 673 (45.8%) eu cyflwyno ar gyfer Cymraeg Cwrs Byr.
- iii) Ni wnaeth 143 o ddisgyblion allan o gohort o 673 (21.2%) ennill cymhwyster mewn Cymraeg.

Yn 2016:

- i) Cyflwynwyd 242 disgybl allan o gohort o 653 (37.1%) ar gyfer Cymraeg Cwrs Llawn.
- ii) Cafodd 274 o ddisgyblion allan o gohort o 653 (42%) eu cyflwyno ar gyfer Cymraeg Cwrs Byr.
- iii) Ni wnaeth 137 o ddisgyblion allan o gohort o 653 (21%) ennill cymhwyster mewn Cymraeg.

*Cafodd disgyblion a fu'n dilyn Cwrs Llawn eu tynnu o'r Cwrs Byr i osgoi eu cyfrif ddwywaith.

Mwy o ddysgwyr gyda sgiliau lefel uwch yn y Gymraeg

Beth yw cyfanswm presennol y rhai sy'n sefyll Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf fel canran o TGAU a safodd Cymraeg Iaith Gyntaf ddwy flynedd ynghynt?

Safodd 2 ddisgybl Safon Uwch Cymraeg yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yn 2016 o gymharu gyda 162 a safodd lefel TGAU yn 2014. Mae hyn yn ganran o 1.2%.

Data 2015: 11 disgybl - Safon Uwch, 3 disgybl - Safon UG Cymraeg (o'r holl Awdurdodau Lleol sy'n bwydo Gwynllyw).

Data 2016: Megis uchod

Beth yw cyfanswm presennol y rhai sy'n sefyll Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith fel canran o TGAU a safodd Cymraeg Ail Iaith ddwy flynedd ynghynt?

Data 2015: 11 disgybl - Safon Uwch, 4 disgybl - Safon UG Cymraeg

Data 2016:

Nid oes unrhyw ddisgybl yn yr ysgolion gan nad oes unrhyw Ffurflenni 6ed

(Coleg 6ed dosbarth)

Y llynedd - AS Cymreig - 7 A2 Cymraeg - 6

Deilliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Dim data

Deilliant 7: Cynllunio gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus


Dim data

Atodiad 1:

	Ysgolion cyfrwng Cymraeg	Ysgolion cyfrwng Saesneg
Urdd Gobaith Cymru	<p>Ysgolion cynradd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adran yr Urdd – Bob wythnos ar gyfer Bl 3-6 yn Ysgol Bro Helyg. Amrywiaeth o weithgareddau, yn cynnwys tripiâu. • Digwyddiadau chwaraeon yn cynnwys rygbi, pêl-rwyd, nofio, pêl-droed, gymnasteg, rygbi TAG a chriced. • Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd - cyfle i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau, yn cynnwys canu, dawnsio a llefaru. • Tripiâu preswyl i 3 canolfan yr Urdd - Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd. • Jambori <p>Ysgolion uwchradd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Ieuentid y Gymraeg yn gweithio yn yr ardal. • Clwb Urdd wythnosol yn Ygol Gyfun Gwynllyw - amrywiaeth o weithgareddau. • Digwyddiadau chwaraeon yn cynnwys rygbi, pêl-rwyd, nofio, pêl-droed a gymnasteg. • Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd - cyfle i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau, yn cynnwys nofio, dawnsio a llefaru. • Tripiâu preswyl i 3 canolfan yr Urdd - Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd. • Tripiâu tramor i Disneyland Paris a Sbaen. • Amrywiaeth o dripiâu dydd. • Fforwm Ieuentid Cymraeg. • Cyfleoedd gwirfoddoli. • Achrediad. • Mae'r holl weithgareddau hyn yn cynnig cyfle i bobl ifanc ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth. 	<p>Ysgolion cynradd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Digwyddiadau chwaraeon yn cynnwys rygbi, pêl-rwyd, nofio, pêl-droed, rygbi TAG a chriced. • Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd - cyfle i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau, yn cynnwys canu, dawnsio a llefaru. Mae rhai cystadlaethau'n benodol ar gyfer dysgwyr. • Tripiâu preswyl i 3 canolfan yr Urdd - Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd. • Jambori <p>Ysgolion uwchradd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Swyddog Ieuentid Cymraeg yn gweithio yn yr ardal yn cefnogi'r ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg ac yn cynnig gweithgareddau Cymraeg yn eu cymuned i bobl ifanc. • Digwyddiadau chwaraeon yn cynnwys rygbi, pêl-rwyd, nofio, pêl-droed a gymnasteg. • Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd - cyfle i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau, yn cynnwys canu, dawnsio a llefaru. Mae rhai cystadlaethau'n benodol ar gyfer dysgwyr. • Tripiâu preswyl i 3 canolfan yr Urdd - Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd. • Amrywiaeth o dripiâu dydd. • Cyfleoedd gwirfoddoli. • Achrediad. • Clybiau Cymraeg wythnosol yn Ysgol Gyfun Tredegar ac Abertyleri. • Sesiynau sgwrsio anffurfiol. • Mae'r holl weithgareddau hyn yn cynnig cyfle i bobl ifanc ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Atodiad 2:

Lleoliad ysgolion cyfrwng Cymraeg a darpariaeth Mudiad Meithrin



Atodiad 3: Data Ychwanegol

2015/16 (Ionawr 16) nifer ar y gofrestr – 234 (yn cynnwys 32 o leoedd meithrin rhan-amser)

Nifer bresennol disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn Ysgol Gymraeg Brohelyg (fel ar 30 Medi 2016).

Disgrifiad Grŵp	Merched	Bechgyn	Myfyrwyr
Blwyddyn 1	17	21	38
Blwyddyn 2	20	10	30
Blwyddyn 3	15	9	24
Blwyddyn 4	24	16	40
Blwyddyn 5	15	14	29
Blwyddyn 6	19	16	35
Blwyddyn R	13	11	24
Blwyddyn N1	3	3	6
Blwyddyn N2	13	4	17
			243

Amcanestyniadau Disgyblion ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Helyg

	Amcanestyniadau (Ionawr 16)
2016/17	251
2017/18	248
2018/19	257
2019/20	257

Nifer disgyblion Gwynllyw

2016/17	<u>Bl.7</u>	<u>Bl.8</u>	<u>Bl.9</u>	<u>Bl.10</u>	<u>Bl.11</u>	<u>Bl.12</u>	<u>Bl.13</u>	<u>Bl.14</u>	
<u>Blaenau Gwent</u>	22	21	24	24	26	14	17		148
	135	172	171	162	128	75	88	4	935